



Adran Adnoddau Dynol
CYNORTHWYDD GWEINYDDOL AD – RHEOLI PRESENOLDEB
GRADD 4
Rhif Swydd: NU098
28 awr yr wythnos
CYFLOG: o £21,575– to £21,968 pro rata
Parhaol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ceisio penodi unigolyn brwdfrydig, trefnus a rhagweithiol i gyflawni dyletswyddau gweinyddol o fewn ei Dîm Rheoli Presenoldeb prysur.

Mae'r swydd hon yn swydd rhan amser (**28 awr yr wythnos**) a leolir y nein Pencadlys yn Llantrisant.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.

A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses gystadleuol iawn a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o feini prawf hanfodol y fanyleb person bydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnha, u eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-rcrwiwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/>

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwrch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag RDS.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **27ain o Fedi 2023 12:00 hanner dydd**.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

